O F F E R Y N N A U  S T A T U D O L
C Y M R U

# 2011 Rhif 2670 (Cy. 285)

# TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

## Gorchymyn Cefnffordd yr A4042 (Cylchfan Grove Park i Bont Heol Pillmawr, Casnewydd) (Cyfyngiad Traffig Dros Dro) 2011

*Gwnaed 07 Tachwedd 2011*

*Yn dod i rym 21 Tachwedd 2011*

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darn perthnasol o Gefnffordd Casnewydd – Amwythig (yr A4042) (y cyfeirir ati yma wedi hyn fel "y gefnffordd"), wedi eu bodloni y dylid cyfyngu ar y traffig ar ddarn penodedig o'r gefnffordd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud arno.

Mae Gweinidogion Cymru, gan hynny, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adran 14(1) a (4) o Ddeddf Rheoli Traffig Ffyrdd 1984**(1)** a phob pŵer galluogi arall**(2)**, yn gwneud y Gorchymyn hwn:

**1.** Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 21 Tachwedd 2011 ac enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cefnffordd yr A4042 (Cylchfan Grove Park i Bont Heol Pillmawr, Casnewydd) (Cyfyngiad Traffig Dros Dro) 2011.

(1) Yn y Gorchymyn hwn—

ystyr "cyfnod y gwaith" (*"works period")* yw'r cyfnod sy'n cychwyn am 09.30 o'r gloch ar 21 Tachwedd 2011 ac a ddaw i ben pan symudir ymaith yn barhaol yr arwyddion traffig dros dro;

ystyr "y darn o'r gefnffordd" *("the length of the trunk road")* yw'r darn hwnnw o'r gefnffordd a bennir yn yr Atodlen i'r Gorchymyn hwn.

(2) Mae unrhyw gyfeiriad yn y Gorchymyn hwn at erthygl â rhif yn gyfeiriad at yr erthygl sy'n dwyn y rhif hwnnw yn y Gorchymyn hwn.